| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 19 Medi 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julie Matthews |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Lisa Jones |
| **Awdur yr adroddiad** | Karen Bellis |
| **Teitl** | Strategaeth Gaffael Sir Ddinbych |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ac yn cyflwyno Strategaeth newydd ddiwygiedig Caffael Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad gan y Cabinet i gymeradwyo a derbyn Strategaeth Gaffael Sir Ddinbych.

2.2. Mae angen diweddaru Strategaeth Gaffael Sir Ddinbych i adlewyrchu a chefnogi'r blaenoriaethau corfforaethol a nodau lles cyfredol. Mae angen strategaeth gaffael i alinio gyda Bil Caffael Llywodraeth y DU sydd ar y gweill, yn ogystal â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

2.3. Mae disgwyliadau mewn perthynas â beth rydym yn ei brynu a sut yn cynyddu, a bydd disgwyl i ni gyflawni hyn gyda gwerth am arian, ond hefyd ag effaith gadarnhaol ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cymunedau - caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol.

2.4. Bydd rheoliadau caffael newydd, sy'n symleiddio dros 300 o reoliadau unigol ar hyn o bryd, yn cael eu cyflwyno, ac mae angen i ni baratoi a chodi ymwybyddiaeth, yn ogystal â hyfforddi'r swyddogion a fydd yn cael eu heffeithio. Mae pwerau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau yn cael eu cynnwys

yn y Bil Caffael, ac mae hyn yn cynnwys: gofyniad i ystyried busnesau bach, gan gynnwys busnesau lleol, cynhyrchu rhestr o gaffaeliadau ar gyfer y dyfodol sy'n weledol a hawdd ei gyrchu; a, chyhoeddi adroddiadau contract.

2.5. Mae'r Strategaeth Gaffael hefyd yn amlygu, er mwyn bodloni rheoliadau newydd a disgwyliadau ar gyfer dull gweithredu mwy syml o ran comisiynu, caffael, rheoli contractau ac adrodd, a fydd yn cefnogi Sir Ddinbych i gael canlyniadau cadarnhaol o reoliadau caffael newydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad [2]) fel rhan o'i ystyriaethau.

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau bod y Strategaeth Gaffael ddiweddar yn cefnogi blaenoriaethau a nodau lles Sir Ddinbych, a'i rôl ym mharatoadau Sir Ddinbych ar gyfer y newidiadau i reoliadau caffael cyhoeddus sydd ar y gweill.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae angen diweddaru Strategaeth Gaffael Sir Ddinbych i adlewyrchu a chefnogi'r blaenoriaethau corfforaethol a nodau lles cyfredol. Mae angen strategaeth gaffael i alinio Bil Caffael Llywodraeth y DU sydd ar y gweill, yn ogystal â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

4.2. Mae disgwyliadau mewn perthynas â beth rydym yn ei brynu a sut yn cynyddu, a bydd disgwyl i ni gyflawni hyn gyda gwerth am arian, ond hefyd ag effaith gadarnhaol ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cymunedau - caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol. Mae hyn yn cynnwys effeithiau carbon, yr hinsawdd, ac ecolegol o ran beth rydym yn ei brynu a sut, ac mae hyn yn hanfodol i ddiwallu ein nod o fod yn ddi-garbon ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.

4.3. Bydd rheoliadau caffael newydd, sy'n symleiddio dros 300 o reoliadau unigol ar hyn o bryd, yn cael eu cyflwyno, ac mae angen i ni baratoi a chodi ymwybyddiaeth, yn ogystal â hyfforddi'r swyddogion a fydd yn cael eu heffeithio. Mae pwerau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau yn cael eu cynnwys yn y Bil Caffael, ac mae hyn

yn cynnwys: gofyniad i ystyried busnesau bach, gan gynnwys busnesau lleol, cynhyrchu rhestr o gaffaeliadau ar gyfer y dyfodol sy'n weledol a hawdd ei gyrchu; a, chyhoeddi adroddiadau contract.

4.4. Mae'r Strategaeth Gaffael yn amlygu, er mwyn bodloni rheoliadau newydd a disgwyliadau ar gyfer dull gweithredu mwy syml o ran comisiynu, caffael, rheoli contractau ac adrodd, a fydd yn cefnogi Sir Ddinbych i gael canlyniadau cadarnhaol o reoliadau caffael newydd.

4.5. Gweler Atodiad 1 am gopi o Strategaeth Gaffael Sir Ddinbych

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd y Strategaeth Gaffael yn cefnogi ac yn galluogi caffael i gyfrannu at ddiwallu themâu ein cynllun corfforaethol, gan gynnwys y rhwymedigaeth statudol i ddarparu yn erbyn y nodau a ffyrdd o weithio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

5.2. Mae'r Strategaeth Gaffael yn mynd i'r afael â, ac yn cefnogi ystyriaethau am effeithiau carbon ac ecolegol yn sgil ein prosesau caffael.

5.3. Bydd y Strategaeth Gaffael yn mewnosod ailstrwythuro caffael ag egwyddor caffael cymdeithasol gyfrifol i'r cylchred caffael (comisiynu - caffael - rheoli contractau). Fel Awdurdod Contractio, mae gan Sir Ddinbych ddyletswydd gaffael Gymdeithasol Gyfrifol i ystyried effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yr hyn a brynwn, a sut. Bydd y Strategaeth Gaffael newydd, a chymhwysiad y rheoliadau caffael newydd, dyletswyddau a rhwymedigaethau cysylltiol yn cyfrannu at y naw thema gorfforaethol.

5.4. Mae'r Strategaeth Gaffael yn cynnwys, ac yn amlygu ystyriaeth am leihau carbon o fewn prosesau dylunio, caffael, a defnyddio nwyddau, gwaith a gwasanaethau wedi'u caffael. Mae ystyriaeth am garbon yn amcan clir o fewn y Strategaeth, ac mae'r Tîm Newid Hinsawdd ac Ecolegol wedi bod yn rhan lawn o'r datblygiad.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni nodwyd unrhyw effaith ariannol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Adroddiad yn cadarnhau bod y Strategaeth Gaffael a hyrwyddiad y rheoliadau caffael newydd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn benodol, yn cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar ganlyniadau dymunol Sir Ddinbych.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafodd ymgynghoriadau eang gyda'r Tîm Newid Hinsawdd ac Ecolegol ar effeithiau Carbon a bioamrywiaeth.

8.2. Mae'r Strategaeth newydd wedi'i siapio gan y dyletswyddau a rhwymedigaethau statudol sy'n codi o'r newidiadau sydd ar y gweill i gyfraith a rheoliadau caffael.

8.3. Mae bwrdd caffael ar y cyd rhwng CSDd a CSyFf wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad ar y drafft, a chynhaliwyd gweithdy gyda swyddogion comisiynu allweddol o'r ddau awdurdod.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Er ei fod yn ymddangos nad oes costau cysylltiedig uniongyrchol yn ymwneud â'r strategaeth weithredu, gall arwain at benderfyniadau sy'n costio mwy. Bydd angen asesu hyn fesul achos unigol, ac efallai bydd yn effeithio graddfeydd prosiectau yn y dyfodol, er enghraifft. Mae hyn yn amlwg yn risg, ar adeg pan mae ein rhagolygon ariannol yn edrych yn anodd iawn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, Deddf Llywodraeth Leol 2000